Christine Chapman AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a
Llywodraeth Leol

3 June 2015

Annwyl Chris,

**Craffu Ariannol ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)**

Fel y gwyddoch, bu'r Pwyllgor yn ystyried goblygiadau ariannol y Bil hwn yn ein cyfarfod ar 21 Mai. Rydym wedi penderfynu peidio ag ymgymryd â rhagor o waith craffu ar y Bil hwn, ond rydym o'r farn y byddai'n ddefnyddiol amlinellu rhai o ystyriaethau ariannol y Bil ar gyfer gwaith craffu eich Pwyllgor chi ar y Bil.

Costau i awdurdodau lleol

Roedd un o brif bryderon y Pwyllgor yn ymwneud ag effaith y Bil hwn ar awdurdodau lleol. Roedd yr Aelodau'n ymwybodol bod llywodraeth leol wrthi'n paratoi ar gyfer newidiadau sylweddol gyda Bil Llywodraeth Leol (Cymru). Yn ogystal â hynny, mae llywodraeth leol wedi cael toriadau sylweddol yn y gyllideb dros y blynyddoedd diwethaf.

Nodwyd bod yr ymgyngoreion yn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru Dyfodol ein Gorffennol yn 2013 wedi codi pryderon tebyg fod awdurdodau lleol eisoes yn defnyddio eu holl adnoddau i ymdopi â'u dyletswyddau craidd presennol, a'u bod hefyd yn gorfod cadw at mwy o flaenoriaethau sy'n ymwneud â materion cymdeithasol ac addysgol ac â chreu swyddi.

Nodwyd hefyd yn yr ymatebion i ymgynghoriad 2013 bod angen sicrhau bod digon o arian yn cael ei roi i wneud yn siŵr y gall awdurdodau lleol a chyrff perthnasol weithredu'r Bil. Yn eu hymateb i'r ymgynghoriad, dywedodd Cyngor Sir Penfro fel a ganlyn:

> PCC has concerns that a significant additional burden of delivery will fall to the Local Planning Authority, at a time of increasingly constrained budgets. Whilst streamlining mechanisms will introduce some efficiency savings, PCC

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

has concerns that, overall, the financial implications to LPAs could be significant, but remain unquantified.

Yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol nodir bod y costau ychwanegol ar awdurdodau lleol o ganlyniad i'r Bil yn isel, sef ychydig o dan £40,000 rhwng 2016-17 a 2020-21. Fodd bynnag, nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi cyfrifo'r costau i awdurdodau lleol a fyddai'n deillio o rannau eraill o'r Bil, fel y cytundebau partneriaeth dreftadaeth, ac estyn cwmpas gwaith brys i adeiladau rhestredig. Er y gallai manteision y polisïau hyn fod yn fwy na'r costau ychwanegol, mae rhai rhanddeiliaid wedi dadlau y gallai'r costau sefydlu fod yn sylweddol, yn enwedig ar gyfer y cytundebau partneriaeth dreftadaeth.

**Felly, efallai y bydd eich Pwyllgor yn dymuno craffu ar gywirdeb honiad yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol y byddai'r costau ychwanegol ar awdurdodau lleol yn isel iawn.**

Yr angen am Fil

Yn ogystal, dywedodd ymgyngoreion fod y problemau gyda rheolaeth bresennol treftadaeth Cymru oherwydd prinder arian yn hytrach na phroblemau gyda'r gyfraith. Nododd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol mewn ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn 2013:

> There was a general feeling that the existing arrangements do not work to their full potential where they are not properly resourced. The existing system would deliver greater real benefits if this resource was in place alongside good management, supplemented with good technical advice on the ground.

**Yn y cyd-destun hwn, efallai y bydd eich Pwyllgor yn dymuno holi ynghylch:**

- **a allai sector amgylchedd hanesyddol sydd wedi'i ariannu'n briodol o bosibl fynd i'r afael â'r problemau sy'n wynebu'r sector yn well na'r Bil;**
- **a allai'r Bil helpu'r sector i gyflenwi mwy o fewn yr adnoddau presennol.**

Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth

Un o'r materion a godwyd yn ystod ymgynghoriad 2013 gan nifer o awdurdodau lleol a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru oedd y costau sylweddol ar awdurdodau lleol o sefydlu'r cytundebau partneriaeth dreftadaeth. Cytundebau statudol gwirfoddol rhwng perchnogion ac awdurdodau cydsynio (fel awdurdodau lleol a Cadw) yw'r cytundebau partneriaeth dreftadaeth, i gynllunio ar gyfer rheoli asedau hanesyddol yn y tymor hir, drwy leihau'r angen am wneud ceisiadau unigol am gydsyniad i wneud newidiadau a gynlluniwyd i'r ased.

Ni roddwyd unrhyw ffigur ar gyfer y costau sy'n gysylltiedig â'r rhain yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, er y darperir tabl sy'n dangos effaith wyth cytundeb partneriaeth dreftadaeth yn Lloegr. Yn achos un cytundeb partneriaeth dreftadaeth yn yr astudiaethau achos hyn, roedd y costau'n amrywio o £4,000 i £70,000. O ran costau posibl y cytundebau partneriaeth dreftadaeth, nodir fel a ganlyn ar dudalen 97 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

> Er bod cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn cymryd amser ac yn ddrud i'w sefydlu, mae yna dystiolaeth bod y gostyngiad yn nifer y ceisiadau am

gydsyniad dros oes y cytundeb, a welir yn ei sgil, yn arwain at arbedion i'r perchennog a'r corff sy'n rhoi cydsyniad.

**Ar y cyfan, fodd bynnag, cynyddu wnaeth costau'r cytundebau partneriaeth dreftadaeth i awdurdodau lleol yn yr astudiaethau achos yn Lloegr. I'r gwrthwyneb, llwyddodd y perchnogion ac English Heritage i arbed arian.** Fodd bynnag, yn eu hymateb i ymgynghoriad 2013, mynegodd Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru gefnogaeth mewn egwyddor i'r cytundebau partneriaeth dreftadaeth, ond nododd fel a ganlyn:

> In most situations it is not practical to prepare proposals far in advance and the up-front investment of time and resources needed for an HPA will not be repaid by the benefits of the agreement. This is therefore likely to be a proposal of negligible value in practice.

**O ystyried statws gwirfoddol cytundebau partneriaeth dreftadaeth, efallai y bydd yn ddefnyddiol i'ch Pwyllgor ddeall lefel y costau dangosol a'r arbedion i awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill a allai godi os cânt eu cyflwyno.**

Rwy'n gobeithio bod y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i'ch Pwyllgor ac rwy'n edrych ymlaen at y ddadl Cyfnod 1 ar y Bil yn y Cyfarfod Llawn.

Yn gywir

**Jocelyn Davies AC**

**Cadeirydd y Pwyllgor**

**cc y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**